

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Polisi Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar nos Fercher, Chwefror 6<sup>ed</sup>, 2018 am 7.15 yh.**

**Presennol**

Cynghorwyr            D. Hopkins            P. H. Roberts            Mrs K.D.L Davies  
                                 R.A. Davies

**Ymddiheuriadau**

Cynghorwyr            I. Rh. Llewelyn            C.J Harris

**463.**

**Adolygiad o'r Polisiâu a'r Dogfennau**

**Y Gofrestr Asedau** – roedd y Clerc wedi diweddarau'r gofrestr ac wedi gwneud y newidiadau canlynol:

- a) ychwanegu Cloc Cilyrychen a'r strwythur gwyr.
- b) ychwanegu'r Cyfleusterau Cyhoeddus yn Llandybïe a Phenygroes, sydd erbyn hyn yn cael eu prydlesi'n swyddogol oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin.
- c) diddymu'r tir ar safle'r hen arosfan bysys yn y Stryd Fawr, Llandybïe
- d) cofnodi'r prisiau newydd ar gyfer y cadwyni cynrychiolaeth, prisiau a roddwyd gan Ernest G Brooks, Gemydd, Rhydaman.
- e) ychwanegu gliniadur newydd y Swyddog Gweinydol.
- f) wedi newid y cyfanswm o seddau ochr-y-ffordd i 115.

**464.**

**I ystyried Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig sy'n dilyn y templad a argymhellwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae Cyngor Cymuned Llandybïe eisoes yn Gyngor cwbl dwyieithog ac roedd angen ystyried ond ychydig iawn o newidiadau bychan. **Argymhellwyd** mabwysiadu'r polisi.

**465.**

**I ystyried Rheolau Sefydlog diwygiedig**

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried Rheolau Sefydlog diwygiedig sy'n dilyn templad a argymhellwyd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ac Un Llais Cymru. Roedd y Clerc wedi adolygu Rheolau Sefydlog presennol y Cyngor ac wedi'u newid lle bo hynny'n briodol, ac erbyn hyn maen nhw'n yn ateb yn llawn gofynion y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a gyflwynwyd yn 2018. **Argymhellwyd** mabwysiadu'r polisi.

**466.**

**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – polisiâu newydd**

Roedd cyflwyno canllawiau Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ym mis Mai 2018 wedi golygu bod angen drafftio polisiâu newydd ar gyfer y canlynol:

---

Cadeirydd

- a) Polisi Diogelu Data - Cyflogaeth
- b) Polisi Diogelu Data
- c) Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- d) Polisi Rheoli Cofnodion a Dargadw, a'r gofrestr dargadw
- e) Polisi Tor Diogelwch Data Personol
- f) Polis Mynediad at Ddata gan y Testun
- g) Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol
- h) Hysbysiad Preifatrwydd Recriwtio

**Argymhellwyd** bod y polisiau yn cael eu mabwysiadu.

(ii) Archwiliwyd yr holl ddogfennau a pholisiau ac **argymhellwyd** eu bod yn aros yn ddigynnewid fel y cytunwyd yn Chwefror 2018.

**467.**

### **Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau**

Roedd y Clerc wedi cynnal adolygiad o Gylch Gorchwyl yr holl Bwyllgorau ac **argymhellwyd** eu bod yn cael eu mabwysiadu, a'u cadarnhau, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

**468.**

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.45 p.m.

---

Cadeirydd